



Annwyl Riant/Warcheidwad

Mae diwedd yr hanner tymor anarferol hwn wedi dod, a gobeithiaf fydd cyfle i ymlacio a throï'r sgriniau i ffwrdd ychydig dros yr wythnos nesaf. Nid yw cael disgyblion i ddysgu o adref yn hawdd i chi felly diolch am eich cefnogaeth fel rhieni a gofalwyr.

Asesu TGAU/UG/Safon Uwch

Mae canllaw cyntaf y broses asesu wedi dod atom ond mae'n brin o fanylion. Un neges bwysig sy'n codi yw pwysigrwydd sicrhau mai gwaith disgyblion yw'r gwaith sy'n cyfrannu at raddau. Gobeithiwn fydd modd dychwelyd i safle'r ysgol a chwblhau'r tasgau asesu gyda'r plant ond os yw'r gwaith yn cael ei wneud adref bydd rhaid i ni sicrhau mai gwaith y plant yw hyn. Bydd rhaid i ddisgyblion arwyddo datganiad i gadarnhau mai eu gwaith nhw yw'r darnau sy'n cael eu cyflwyno.

Noson Agored Coleg Ceredigion

Bydd rhai disgyblion blwyddyn 11 yn gwneud eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar hyn o bryd. Mae Coleg Ceredigion yn cynnal nosweithiau agored rhithiol ac mae'r manylion isod.

<https://www.ceredigion.ac.uk/index.php/en/about-mobile/open-days-mobile>

Gweithgareddau

- Mae Eisteddfod Cardi-laith yn cynnal cystadlaethau i blant ar gyfer hanner tymor - manylion yn yr hysbyseb sydd wedi dod gyda'r neges hon neu ar @cardiiaith.
- Mae'r Urdd yn cynnal nifer o weithgareddau #hwylhannertymor – manylion yn yr hysbyseb sy'n dod gyda'r neges hon.
- Mae'r Urdd hefyd wedi cyhoeddi manylion Eisteddfod-T yr haf. Nifer o gystadlaethau newydd a diddorol - mae manylion yn y ddolen: [Eisteddfod T | Urdd Gobaith Cymru](https://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/eisteddfod-t/)

Defnydd o gyswllt we symudol

Mae rhai disgyblion yn defnyddio cysylltiad we trwy ffonau symudol gan nad oes cyswllt band eang ar gael yn eu hardaloedd. Mae'r llywodraeth yn bwriadu cynnig cefnogaeth i deuluoedd yn y sefyllfa yma. Atodaf y neges isod.

“Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn trafodaethau gyda 4 prif Weithredwyr Rhwydwaith Symudol (Mobile Network Operators - MNO) i geisio uwchraddio data teuluoedd sydd wedi'i eithrio'n ddigidol.

1. Bydd y cynllun yma yn cynyddu'r lwfans data symudol ar gyfer naill ai rhiant / gofalwr y dysgwyr, neu gyfrif y dysgwyr os bernir ei fod yn briodol, lle mae gan yr unigolyn gyfrif presennol gyda'r MNOs (sy'n cwrdd â'i rhag-amodau – gweler isod).
Ar hyn o bryd terfyn amser y cynllun yma yw **31 Gorffennaf 2021**.
2. Y Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol sydd yn barod i uwchraddio data yw;
BT mobile, EE, Three, SMARTY
3. Mae LI.C mewn trafodaethau gyda'r gweithredwyr yma ar hyn o bryd a mater o amser yw
Vodafone, O2 Mobile, Sky, Virgin, Tesco Mobile.

Rhag Amodau

Bydd y gweithredwyr yn gwirio a yw'r cartrefi a nodwyd eisoes yn derbyn gwasanaethau band eang domestig ac os felly, ni fydd uwchraddio data yn cael eu cymhwyso.

BT & EE - Bydd rhaid i deuluoedd wedi bod yn gwsmer am o leiaf 3 mis.

(Er bod trafodaethau gyda Vodafone dal yn parhau un rhag amod yw bydd rhaid i gwsmeriaid PAYG gwneud isafswm taliad o £10 drwy 'top up' yn fisol).

(Er bod trafodaethau gyda O2 Mobile dal yn parhau un rhag amod yw bod teuluoedd wedi bod yn gwsmer am o leiaf 6 mis).

- 4. Er mwyn i deuluoedd sydd wedi'i eithrio'n ddigidol gwneud cais am uwchraddiad data bydd rhaid iddyn nhw lenwi'r holiadur yma;**
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k5kKi6E0tztNIMtypngM_GBUQIZCSVZPSFJXUkVFNjBWNFdVR1BQRTJXTi4u
- 5. Bydd y sir yn danfon y wybodaeth yma i Lywodraeth Cymru. Y gweithredwyr sydd â'r penderfyniad terfynol ac mi fyddan nhw yn cysylltu â deiliad y cyfrif yn uniongyrchol i gadarnhau a yw'r uwchraddiad wedi'i gymhwyso.**

Gobeithiaf fod pawb yn parhau yn iach. Cofiwch ein bod yma i ymateb i gwestiynau neu sylwadau. Gallwch gysylltu trwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.



Dr Rhodri Thomas (Pennaeth)